

## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

### **GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**28 TACHWEDD 2017**

#### **DARPARU GWASANAETH CYFIEITHU AR Y PRYD I GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF YN EI GYFARFODYDD O'R CYNGOR LLAWN A'I BWYLLGORAU**

#### **ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES MEWN TRAFODAETH Â'R AELOD PERTHNASOL SYDD Â CHYFRIFOLDEB, Y CYNGHORYDD G. HOPKINS**

**AWDUR:** Wendy Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned (01443 744111)  
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg (01443 570002)

#### **1. DIBEN YR ADRODDIAD**

- 1.1 Diben yr adroddiad yw rhoi cyfle i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg i drafod y ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd yn y Cyngor llawn a chyfarfodydd pwyllgorau amrywiol wedi'i hwyluso gan Uned Gwasanethau Cymraeg y Cyngor, Uned Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol a'r Gwasanaethau Cyfreithiol.

#### **2. ARGYMHELLION**

Dyma'r argymhellion i aelodau o Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:

- 2.1 Nodi cynnwys yr adroddiad;
- 2.2 Pwysu a mesur yr wybodaeth a chynnig sylwadau.
- 2.3 Cymeradwyo canllawiau drafft ar gyfer hwyluso cyfarfodydd dwyieithog gyda chyfieithu ar y pryd (Atodiad 2) ynghyd â hyfforddiant pellach ar gyfer bawb sydd ynglŷn â chyfarfodydd dwyieithog.

#### **3. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION**

- 3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor, o dan safonau 24, 24A, 26, 26A, 27A, 27D, 29, 29A 32, 33, 74, 79, 114, 118, 139 ei Hysbysiad Cydymffurfio a gafodd ei gyhoeddi o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i

gynnal gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol (Atodiad 1).

- 3.2 Mae'r gofyniad i ddarparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd i gefnogi'r Cyngor i gwrdd â Safonau'r Gymraeg wedi rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau'r Cyngor, yn enwedig y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol a Gwasanaethau'r Gymraeg.
- 3.3 Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi cyfle i gymeradwyo canllawiau newydd ar ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i sicrhau bod Cynghorwyr a staff yn effro i'r camau sydd rhaid eu hystyried er mwyn galluogi pobl i ddefnyddio eu dewis iaith yn gwbl naturiol a hwylus mewn cyfarfodydd sy'n cynnwys darpariaeth cyfieithu ar y pryd.

#### **4. CEFNDIR**

- 4.1 Derbyniodd Cyngor Rhondda Cynon Taf ei Hysbysiad Cydymffurfio terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Roedd yr Hysbysiad yn ymdrin â'r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i fodloni 171 o Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a gafodd eu pennu gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cafodd cais i herio rhai Safonau, gan gynnwys y Safonau o ran Cyfieithu ar y Pryd, ei gyflwyno i'r Comisiynydd ar 29 Mawrth 2016.
- 4.2 Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg yr Hysbysiad Cydymffurfio terfynol diwygiedig ar gyfer Cyngor Rhondda Cynon Taf ym mis Medi 2016. Er bod yr hysbysiad diwygiedig yn adlewyrchu newidiadau i'r amserlenni a gytunwyd gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg yng ngoleuni apêl y Cyngor, doedd e ddim wedi lleihau'r gofyn ar y Cyngor i ddarparu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd.

#### **5. SEFYLLFA BRESENNOL**

- 5.1 Yn dilyn trafodaethau rhwng y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol, Gwasanaethau'r Gymraeg a Chyfarwyddwr Gwasanaeth Swyddfa'r Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus (Mehfin 2017), penderfynwyd hwyluso darpariaeth cyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod llawn o'r Cyngor a phwyllgorau a oedd i'w cynnal yn siambr y Cyngor ar unwaith.
- 5.2 Mae calendr dros dro'r cyfarfodydd yn cynnwys 139 ar gyfer y flwyddyn Fwrdeistrefol lawn, ac eithrio unrhyw gyfarfodydd ychwanegol sy'n cael eu galw ar frys, yn ychwanegol at y rhai sy wedi'u nodi yn 5.3 isod.
- 5.3 Yn unol ag ymdrechion y Cyngor i gynyddu cyfranogiad trigolion yn y broses Craffu, mae gofyn pellach ar y Cyngor i hwyluso cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd Pwyllgor mewn gwahanol leoliadau ledled y

Fwrdeistref Sirol. Hyd yn hyn, mae 9 cyfarfod wedi cael eu trefnu i'w cynnal 'oddi ar y safle'.

- 5.4 Derbyniodd Gwasanaethau'r Gymraeg fuddsoddiad ychwanegol yn 2016/2017 (dau gyfieithydd ychwanegol ynghyd â chynyddu o un swydd o 30 awr i 37 awr) i ymdrin â'r galw cynyddol am wasanaethau cyfieithu papur a cheisiadau cyfieithu ar y pryd ad-hoc. Doedd y cyllid ychwanegol ddim ar gyfer hwyluso darpariaeth cyfieithu ar y pryd naill mewn cyfarfodydd llawn o'r Cyngor a Phwyllgorau yn siambr y Cyngor nac mewn gwahanol leoliadau ledled y Fwrdeistref Sirol.
- 5.5 Wedi dweud hynny, mae 4 o gyfieithwyr y Cyngor wedi derbyn cwrs hyfforddi 10 awr er mwyn darparu sgiliau cyfieithu ar y pryd sylfaenol. Mae arbenigedd a hyblygrwydd y garfan bresennol i'w gymeradwyo, yn enwedig parodwydd gwirfoddol y staff o ran newid eu horiau gwaith er mwyn bodloni anghenion y Cyngor. Fodd bynnag, yn allweddol ar gyfer datblygu sgiliau cyfieithu ar y pryd lefel uwch yw cyfleoedd digonol i ymarfer yn ogystal â sicrhau bod camau cadarn ar waith ar gyfer pawb sydd ynglŷn â chyfarfodydd dwyieithog er mwyn cynnal darpariaeth hwylus.
- 5.6 Yn ogystal, bu peth pryderon ymysg staff ac Aelodau Etholedig ynghylch darparu'r gwasanaeth mewn cyfarfodydd, yn bennaf yn sgil bod y ddarpariaeth yn newydd a'r cymhlethdodau sy'n cwmpasu agweddau ar hwyluso dwy iaith mewn cyfarfodydd. Bydd canllawiau cadarn ar gyfer pawb sydd ynglŷn â hwyluso cyfarfodydd yn gymorth i fynd i'r afael â'r pryderon hynny.

## **6. CAMAU NESAF**

- 6.1 Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i wneud cyfraniad adeiladol at y Gymraeg ac i sicrhau y caiff Cynghorwyr, staff a'r cyhoedd gyfrannu yn eu dewis iaith yn y modd mwyaf hwylus, mae canllawiau drafft wedi cael eu paratoi ar gyfer eu cymeradwyo.
- 6.2 Mae'r canllawiau drafft yn seiliedig ar ddogfen gyngor y Comisiynydd Iaith: ***Drafftio Dwyieithog, Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd***
- 6.3 Yn ogystal, bydd hyfforddiant yn cael ei drefnu ar gyfer Cynghorwyr a staff (gan gynnwys hyfforddiant penodol i'r rheiny sydd â nam ar eu clyw, Cadeiryddion a staff cyfieithu) yn cael ei drefnu gan Wasanaethau Llywodraethol a'r Uned Gwasanaethau Cymraeg.

## **7. GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIOLDEB**

Wrth fynd i'r afael â'r angen i hwyluso cyfieithu ar y pryd yn holl gyfarfodydd llawn y Cyngor a Phwyllgorau i'w cynnal yn siambr y

Cyngor, cafodd hen system gylch y siambr ar gyfer pobl trwm eu clyw ei thynnu a gosod system bersonol dwy sianel yn ei lle.

**8. YMGYNGHORI**

Doedd broses ymgynghori ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn.

**9. GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL**

Gallai peidio â chydymffurfio â Safon olygu cosbau ariannol o hyd at £5,000. Hefyd, bydd costau argraffu a hyfforddiant yn sgîl pwyntiau adran 6.

**10. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL NEU DDEDDFWRIAETH BERTHNASOL**

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau Statudol ar gyfer y Gymraeg 2015 sy'n rheoleiddio'r gwaith yma.

**11. CYSYLLTIADAU Â CHYNLLUN CORFFORAETHOL / BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL ERAILL Y CYNGOR**

Mae'r Gymraeg yn thema drawstoriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym Medi 2016.

**12. CASGLIAD**

12.1 Mae gan y Cyngor hanes da o weithredu'r Safonau yn unol â'i Hysbysiad Cydymffurfio a darparu cyfleoedd ar gyfer Cyngorwyr a thrigolion i gael mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, mae'r gofyniad i hwyluso cyfieithu ar y pryd fel y mae ar hyn o bryd yn her sylweddol i'r Cyngor, felly mae rhaid dilyn canllawiau cadarn er mwyn ceisio fynd i'r afael â'r her hynny.

12.2 Y gobaith yw bydd canllawiau a chyfleoedd hyfforddiant yn cyfrannu'n sylweddol at fynd i'r afael â rhai o'r pryderon ynghylch cynnal cyfarfodydd dwyieithog ac yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol ar sut i gael mwy o gyfraniad gan bawb sydd ynglŷn â nhw.

## ATODIAD 1 – SAFONAU SY’N YMWNEUD Â CHYFIEITHU AR Y PRYD

24	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i P a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw.	30/03/2016
24A	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, a bod P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).	30/03/2016
26	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd unigolyn ("A") i gyfarfod, a bod y cyfarfod yn ymwneud â llesiant A, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno defnyddio'r	30/03/2016

26A	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu A y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.</p> <p>Rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg ar gael mewn cyfarfod- (a) os yw'r cyfarfod yn ymwneud â llesiant unigolyn ("A") a wahoddwyd, a (b) os yw A wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.</p>	30/03/2016
27A	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno</p>	30/03/2016

27D	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.</p> <p>Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).</p>	30/03/2016
29	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod y cyfarfod hwnnw yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, rhaid ichi - (a) gofyn i'r unigolyn hwnnw neu i bob un o'r unigolion hynny a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a (b)</p>	30/03/2016

29A	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>hysbysu'r unigolyn (neu'r unigolion hynny) y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.</p> <p>Rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn cyfarfod - (a) os ydych wedi gwahodd mwy nag un person i'r cyfarfod, (b) os yw'r cyfarfod yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, ac (c) os oes o leiaf un o'r unigolion hynny wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.</p>	30/03/2016
32	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi - (a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n</p>	30/03/2016



dymuno defnyddio'r Gymraeg, a (b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).

Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg - (a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. Rhaid cydymffurfio â safon 33 ymhob amgylchiad, ac eithrio:

pan fo gwahoddiad neu hysbyseb i'r cyfarfod wedi gofyn i bersonau eich hysbysu a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, a bod

		dim un person wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	
74	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais rhaid ichi - (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i'r ymgeisydd allu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a (b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	30/03/2016
79	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr rhaid ichi - (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg fel bod modd i'r tendrwr ddefnyddio'r	30/03/2016

114

Gweithredu

Gymraeg yn y cyfweiliad, a (b) os yw'r tendrwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).

Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi - (a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; (b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).

30/09/2016

118	Gweithredu	Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi - (a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a (b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac, os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	30/09/2016
139	Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi - (a) yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad neu ddull arall o asesiad, a (b) yn esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os oes angen; ac, os yw'r unigolyn yn	30/03/2016

dymuno defnyddio'r Gymraeg  
yn y cyfweiliad neu'r asesiad,  
rhaid ichi ddarparu  
gwasanaeth cyfieithu ar y  
pryd yn y cyfweiliad neu  
asesiad (os nad ydych yn  
cynnal y cyfweiliad neu'r  
asesiad yn Gymraeg heb y  
gwasanaeth cyfieithu  
hwnnw).

## **Atodiad 2**

### **Testun drafft canllawiau ar gynnal cyfarfodydd dwyieithog â chymorth cyfieithu ar y pryd**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a bydd yn sicrhau y gall pobl sy'n dymuno byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg wneud hynny yn eu hymwneud gyda'r Cyngor; a bod gan Gynghorwyr ac eraill sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd Cyngor bob cyfle i wneud hynny.

Paratowyd y canllawiau yma er mwyn cefnogi Cynghorwyr a staff:

- i ddefnyddio'r Gymraeg os mai dyna yw eu dymuniad,
- ddefnyddio cyfarpar cyfieithu ar y pryd yn y modd mwyaf priodol os ydyn nhw am eu defnyddio, a
- i sicrhau bod cyfarfodydd dwyieithog yn cael eu cynnal yn y modd mwyaf hwylus posibl.

### **TREFNU CYFARFOD DWYIEITHOG**

Dylai Cynghorwyr a staff gwasanaethau sy'n dymuno trefnu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd ystyried y canlynol:

- Dylid rhoi cymaint o rybudd ag y bo modd i Uned Gwasanaethau'r Gymraeg er mwyn trefnu cyfieithydd.
- Sicrhau bod pob gohebiaeth sy'n ymwneud â'r cyfarfod yn ddwyieithog gan gynnwys rhai dros dro a godir er dibenion y cyfarfod;
- Datgan ar hysbysebion ac ar agenda cyfarfodydd y bydd hi'n bosibl siarad yn y naill iaith neu'r llall, ac y bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael;
- Sicrhau bod y cyfieithydd / Uned Gwasanaethau'r Gymraeg ( [cyfieithu-translation@rctcbc.gov.uk](mailto:cyfieithu-translation@rctcbc.gov.uk) ) yn derbyn y dogfennau sy'n berthnasol i'r cyfarfod ymlaen llaw, gan gynnwys unrhyw ddatganiadau neu sgriptiau a baratowyd ymlaen llaw os yw'n briodol;
- Cylchredeg geirfa a therminoleg berthnasol os bydd y cyfarfod yn trafod pwnc nad yw fel rheol yn cael ei drafod drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Fel rheol, dyw cyfieithu ar y pryd ddim yn cael ei ddarparu o'r Saesneg i'r Gymraeg, er y gall hyn ddigwydd mewn rhai amgylchiadau;
- Egluro i'r cyfieithydd ar y pryd wrth drefnu'r gwasanaeth pa fath o gyfarfod sydd dan sylw – cyfarfod cyhoeddus, cyfarfod pwyllgor, cyfweiliad, seminar, cyfarfod cymdeithas wirfoddol, ac ati.
- Sicrhau bod digon o amser i osod offer cyfieithu ar y pryd cyn i'r cyfarfod ddechrau a bod modd i bobl gael gafael ar yr offer yn hawdd;
- Sicrhau bod yr ystafell lle mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn briodol ac o'r maint cywir, a bod yr acwsteg yn dderbyniol;
- Sicrhau bod yr ystafell lle cynhelir y cyfarfod yn addas ac o'r maint iawn, a bod yr acwsteg yn dderbyniol;

### **DEFNYDDIO CLUSTFFONAU CYFIEITHU YN YSTOD CYFARFOD**

- Trowch ar y clustffonau a gadael yn y sefyllfa 'ar'
- Rhowch freichiau'r clustffon ym mhob un o'ch clustiau i eistedd ar ei lawr - hynny yw, fel bydd y clustffon yn hongian o dan y gen.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu clywed y cyfieithydd yn ystod prawf byr drwy'r Cadeirydd
- Os na allwch chi glywed, addasu'r gyfrol neu ei dwyn i sylw'r Cadeirydd (pwy fydd yn siarad â'r cyfieithydd)
- Os oes angen codi mater ynglŷn â'r offer cyfieithu / cyfieithu, gwnewch hynny trwy'r Cadeirydd.
- Diffoddwch y clustffon ar ddiwedd y cyfarfod a gadewch ar y ddesg
- Mae'r holl glustffonau yn cael eu glanhau ar ôl eu defnyddio gan y cyfieithwyr. Fodd bynnag, mae croeso i ddefnyddwyr y clustffonau ddefnyddio'r dillad golchi i lanhau'r clustffonau a fydd ar gael ym mhob cyfarfod.

### **CYFRANNU YN YSTOD CYFARFOD**

- Os ydych chi'n cyfrannu, siaradwch yn glir trwy'r microffonau ar y desgiau a diffoddwch y microffonau ar ôl eich cyfraniad.
- Cyn i chi ddechrau siarad yn Gymraeg, gadewch i eraill wybod eich bod ar fin gwneud hynny.
- Cofiwch, oherwydd natur cyfieithu ar y pryd, nid yw pob gair yn cael ei gyfieithu
- Dylai cadeiryddion cyfarfodydd sicrhau bod cyfranwyr yn siarad yn eu tro, ac mae hyn yn arbennig o bwysig mewn cyfarfodydd dwyieithog

### **CADEIRYDDIO CYFARFOD DWYIEITHOG**

Mae gan gadeiryddion rôl bwysig i'w chwarae wrth sicrhau y gall pobl ddefnyddio eu dewis iaith. Gallant osod y tŷn ar gyfer y cyfarfod. Gall y cadeirydd wneud y canlynol i hwyluso cyfarfod dwyieithog llwyddiannus:

- Agorwch y cyfarfod yn ddwyieithog: "Noswaith dda a chroeso i chi gyd" / "Noson dda a chroeso"
- Cyhoeddi bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddefnyddio fel bod unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu yn y Gymraeg yn gwybod y gallant wneud hynny.

- Cyhoeddi bod y clustffonau cyfieithu ar yr un pryd yn cael eu glanhau ar ôl pob defnydd, ond mae croeso i ddefnyddwyr ddefnyddio'r cadachau glanhau sydd i'w cael yn y siambr.
- Gofynnwch i'r di-Gymraeg wisgo eu clustffonau a sicrhau bod yr offer yn gweithio'n iawn a bod y gwrandaŵr di-Gymraeg yn deall ac yn gallu gweithredu'r clustffonau.
- Atgoffwch y siaradwyr i ddefnyddio'r microffonau - dim ond yr hyn y mae'r cyfieithydd yn ei glywed bydd yn cael ei gyfieithu.
- Esboniwch y dylai pawb siarad yn ei dro gan na all y cyfieithydd gyfieithu dau lais ar yr un pryd.
- Os oes problem gyda'r offer cyfieithu neu os oes angen eglurhad o ran cyfieithiad, gwahoddwch Aelodau i ddod ag e at sylw'r Cadeirydd.

## **CYMORTH A HYFFORDDIANT**

Mae modd i Wasanaethau Llywodraethol ac Uned Gwasanaethau'r Gymraeg drefnu hyfforddiant a chefnogaeth ar ddefnyddio offer cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd ac ar hwyluso cyfarfodydd dwyieithog. Yn ychwanegol at hyfforddiant cyffredinol, mae croeso i Gynghorwyr a staff gysylltu â'r naill wasanaeth neu'r llall yn uniongyrchol ar gyfer sesiynau hyfforddi 'drws agored' byr pan fo'n gyfleus. Gall hyfforddiant ar gyfieithu ar y pryd / systemau dolen ar gyfer y rheiny sydd â nam ar eu clyw hefyd gael ei gynnwys yn rhan o unrhyw hyfforddiant. Am ragor o wybodaeth, ffoniwch <ewnau yma>